Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Ymgynghoriad ar awdurdodi un bwyd traddodiadol i'w roi ar y farchnad ar sail hysbysiad – mis Ionawr 2026

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 28 Ionawr 2026
Dyddiad cau: 25 Chwefror 2026

## Crynodeb o'r ymatebion

Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyhoeddi.

## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

Pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon, awdurdodau iechyd lleol a phorthladdoedd, cynghorau dosbarth, a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae ymgynghoriad cyfochrog ar wahân yn cael ei gyhoeddi gan Safonau Bwyd yr Alban (FSS).

## Pwnc yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau, sylwadau ac adborth rhanddeiliaid mewn perthynas â'r hysbysiad am gynnyrch rheoleiddiedig a ystyrir yn y ddogfen hon, a gyflwynwyd o dan Erthygl 14 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2015/2283 ("y Rheoliadau Bwydydd Newydd") – Hysbysiad o fwyd traddodiadol o drydedd wlad.

- Awdurdodiad newydd ar gyfer cnau daear Bambara (hadau a blawd hadau *Vigna subterranea* (L.) Verdc.)

## Diben yr ymgynghoriad

Wrth ymgynghori, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid ar y telerau awdurdodi arfaethedig ac unrhyw ofynion labelu. Gwahoddir rhanddeiliaid i fanteisio ar y cyfle hwn i roi sylwadau neu i nodi unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu dwyn i sylw gweinidogion cyn i'r hysbysiad gael ei awdurdodi.

## Pecyn ymgynghori

Mae'r pecyn ymgynghori hwn yn rhoi'r wybodaeth gefndirol, y manylion a'r cwestiynau y gwahoddir chi i ymateb iddynt. Mae'n darparu dolenni i'r argymhelliad rheoli risg sy'n cynnwys

crynodeb o'r allbwn gwyddonol a mesurau diogelu.

## Sut i ymateb

Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy'r arolwg ar-lein . Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosib, gallwch ymateb trwy anfon e-bost i:

- **E-bost**: RPconsultations@food.gov.uk
- **Enw**: Gwasanaeth Cyflenwi Cynhyrchion Rheoleiddiedig
- **Is-adran/Cangen**: Awdurdodi Cynhyrchion Rheoleiddiedig i'w Rhoi ar y Farchnad

Os byddwch yn ymateb trwy e-bost, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn preifat neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli), ac ym mha wlad rydych wedi'ch lleoli.

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Rydym yn anelu at gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd o fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben a darparu dolen iddo o'r dudalen hon. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein Hysbysiad preifatrwydd ynghylch ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth y DU. Mae'r effeithiau posib mewn perthynas â'n cynigion wedi'u trafod yn y ddogfen ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny yn y ddogfen ymgynghori.

Diolch i chi, ar ran yr ASB, am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.